Image not found or type unknown

# Geirfa o dermau digidol

Cyhoeddwyd gyntaf: 20 December 2024

Diweddariad olaf: 8 January 2025

Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.
Ewch i https://gofalcymdeithasol.cymru/ymchwil-a-data/deall-eich-potensial-digidol/geirfa-o-dermau-digidol am y fersiwn diweddaraf.

Wrth gwblhau ein dyfais botensial ddigidol, efallai byddwch chi'n dod ar draws geiriau neu dermau sy’n newydd i chi.

Mae'r eirfa hon yn helpu i egluro rhai o'r termau gallech chi ddod o hyd i yn y ddyfais.

Os dewch chi o hyd i air neu derm yn y ddyfais nad ydych chi'n deall ac nad yw ar y rhestr hon, cysylltwch â digidol@gofalcymdeithasol.cymru.

Rydyn ni wedi rhestru'r geiriau a'r termau yn nhrefn yr wyddor.

# A

**Ansawdd data**

Pa mor fanwl gywir, cyflawn ac addas yw'r data at ei ddiben penodol.

**Anifeiliaid anwes robotig**

Robotiaid sydd wedi’u dylunio i ddarparu cymdeithas a chefnogaeth emosiynol, fel cath robotig.

**Arloesi digidol**

Chwilio am atebion digidol i broblemau penodol fel rhan o brosiectau sefydliadol.

**Atebion digidol**

Y defnydd o dechnoleg i ddatrys problemau neu i optimeiddio prosesau, fel meddalwedd amserlennu ar gyfer rheoli staff.

### Awtomeiddio proses

Y defnydd o dechnoleg, rhaglenni neu brosesau i wneud tasgau'n haws, gyda llai o waith llaw.

## B

### Bwrdd gwyn ar-lein

Bwrdd gwyn rhithwir sy'n galluogi pobl i rannu syniadau, gwneud cynlluniau mwy gweledol, a nodi meddyliau.

## C

### Canolfan derbyn larwm

Canolfan sy'n derbyn ac yn prosesu rhybuddion gan breswylwyr trwy eu dyfeisiau. Mae'r math o ddata maen nhw’n derbyn yn dibynnu ar y math o ddyfais a'r math o system. Er enghraifft, galwad am gymorth gan ddyfais rhywun ar ôl cwympo.

### Casglu data personol

Yn y cyd-destun hwn, rydyn ni’n cyfeirio at gofnodi gwybodaeth. Er enghraifft, mewn cofnodion gofal, neu ofyn i bobl adael eu manylion ar ffurflen.

### Cofnod gofal electronig (ECR)

System ddigidol sy’n cael ei ddefnyddio i reoli gofal person yn lle cofnodion papur.

**Cofnodion gofal digidol**

Casgliad o nodiadau am berson sy'n defnyddio gofal a chymorth. Mae’r cofnodion yn cael eu cadw gan ddefnyddio offer digidol fel rhaglen gyfrifiadurol neu ap.

**Cyfarfod ar-lein**

Cyfarfodydd rhithwir sy'n galluogi pobl i gysylltu a chymryd rhan heb fod yn yr un lleoliad.

**Cyfathrebu trwy dechnoleg**

Y defnydd o blatfformau, offer neu ddyfeisiau fel Microsoft Teams neu WhatsApp i rannu gwybodaeth a chydweithio.

**Cyfryngau cymdeithasol**

Platfformau fel Facebook, Instagram a LinkedIn, lle gall pobl rwydweithio, rhannu cynnwys, a chysylltu ag eraill.

**Cynllun gofal**

Nodiadau sy’n ymwneud â’r person sy’n defnyddio gofal a chymorth yn egluro pam mae’r person yn derbyn gofal a’r canlyniadau disgwyliedig.

## D

**Dewis gwybodus**

Darparu gwybodaeth berthnasol, gan gynnwys risgiau a chanlyniadau, i helpu unigolion i wneud penderfyniadau.

**Diogelu**

Y broses o warchod iechyd, hawliau a llesiant unigolion.

**Diogelu data**

Y broses o ddiogelu gwybodaeth bersonol sensitif rhag niwed, colled neu lygredd.

**Dilysu dau ffactor**

Mesur diogelwch sy'n gofyn am ddau fath o ddilysu cyn caniatáu mynediad. Er enghraifft, cyfrinair a chod gwirio.

**Dogfennau a chyflwyniadau ar y cyd ar-lein**

Ffeiliau y gall nifer o bobl weithio arnyn nhw ar yr un pryd gan ddefnyddio offer fel Google Drive neu Microsoft OneDrive.

**Dyfeisiau gwisgadwy**

Technoleg sy’n cael ei gwisgo ar y corff ac sy’n cael ei defnyddio i fonitro iechyd neu lefelau gweithgaredd, fel oriorau clyfar.

**Dyfeisiau therapi rhyngweithiol**

Dyfeisiau sy'n helpu’r person sy’n defnyddio gofal a chymorth i ffynnu’n emosiynol ac yn wybyddol. Er enghraifft, dyfeisiau sy’n helpu’r person i gofio a

rhannu eu hatgofion drwy ddefnyddio cliwiau sain a gweledol, neu ddyfais sy'n rhoi cwtsh. Gweler hefyd 'technoleg therapiwtig'.

### Dyfais meddyginiaeth

Dyfais sy’n rhyddhau neu’n atgoffa unigolion i gymryd meddyginiaeth, fel dosbarthwr pils.

### Dyfais symudol

Dyfais fach, gludadwy fel ffôn neu dabled sy’n cael eu defnyddio ar gyfer tasgau gwaith neu bersonol.

## G

### GDPR (Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data)

Deddfwriaeth sy'n diogelu hawliau a rhyddid unigolion drwy reoleiddio prosesu data personol.

### Gofal yn y cartref

Gofal sy’n cael ei ddarparu yn nhŷ unigolyn ei hun.

### Gosodiad caledwedd

Dyfeisiau ac offer mae sefydliad yn eu defnyddio, fel gliniaduron, tabledi neu gyfrifiaduron.

### Gwe-rwydo (phishing)

Ymosodiad seiber lle mae unigolion yn cael eu twyllo i ddatgelu gwybodaeth sensitif trwy gyfathrebu twyllodrus.

**Gweithiwr asiantaeth**

Gweithiwr proffesiynol nad yw'n aelod parhaol o'r staff.

# M

**Meddalwedd**

Rhaglenni sy'n perfformio tasgau penodol, fel anfon e-byst neu fonitro gofal pobl.

**Meddalwedd gwrth-firws a maleiswedd**

Rhaglenni wedi'u dylunio i ganfod a thynnu bygythiadau diogelwch fel firysau neu faleiswedd.

**Meddalwedd rheoli meddyginiaeth**

Offer sy’n cael eu defnyddio i oruchwylio a monitro gweinyddu meddyginiaethau.

**Monitro sŵn**

Dyfeisiau, fel meicroffonau, sy’n cael eu defnyddio i fonitro am synau annisgwyl sy'n dangos newid mewn ymddygiad.

# O

**Offer**

Dyfeisiau sydd eu hangen i gwblhau tasgau, fel gliniaduron neu ffonau symudol.

**Offer deallusrwydd artiffisial (AI)**

Mae offer AI yn rhaglenni cyfrifiadurol sy'n gallu gwneud tasgau fel ateb cwestiynau, datrys problemau, neu greu pethau fel lluniau neu destun. Er enghraifft, ChatGPT, Microsoft Copilot a Grammarly.

Maen nhw’n gweithio trwy ddysgu o set o ddata neu enghreifftiau. Ond nid yw offer AI bob amser yn cael pethau'n iawn ac mae angen i bobl gywiro eu hallbynnau.

**Offer digidol**

Offer, rhaglenni neu apiau sy’n gysylltiedig â gwaith. Er enghraifft, ap ar gyfer diweddaru cofnodion gofal.

**Offer hygyrchedd**

Gosodiadau penodol sy'n gwneud dyfeisiau'n haws i'w defnyddio. Er enghraifft, newid maint testun, cael testun wedi'i ddarllen yn uchel, neu ddangos is-deitlau.

**Offer negeseuon**

Apiau sy’n galluogi cyfathrebu rhwng aelodau tîm, fel Microsoft Teams neu Slack.

## P

### Platfform

Meddalwedd neu wasanaeth sy’n cefnogi cwblhau tasgau neu gael mynediad at wasanaethau. Er enghraifft, platfformau cyfryngau cymdeithasol, gemau neu blatfformau ffrydio fideo fel Netflix.

## S

### Seiberddiogelwch

Mesurau sy’n cael eu cymryd i ddiogelu dyfeisiau, systemau a gwybodaeth bersonol rhag mynediad heb ganiatâd, fel gan hacwyr.

### Seinydd clyfar

Dyfais wedi’i reoli gan lais ac sy'n gallu gwneud tasgau fel chwarae cerddoriaeth, gosod larymau neu ateb cwestiynau.

### Sgiliau digidol

Yr ystod o alluoedd i ddefnyddio dyfeisiau digidol, apiau cyfathrebu a rhwydweithiau i gael mynediad at a rheoli gwybodaeth.

### Strategaeth ac arweinyddiaeth ddigidol

Cynllunio ac arweinyddiaeth sefydliadol sy’n canolbwyntio ar wella gweithrediadau a gwasanaethau gan ddefnyddio offer a systemau digidol.

### Synhwyrydd cadair

Pad pwysau sy’n monitro symudiadau person mewn cadair i ganfod symudiadau anarferol, fel cwymp allan o’r gadair.

**Synhwyrydd gwely**

Pad pwysau sy’n cael ei ddefnyddio i fonitro symudiadau person mewn gwely, gan ganfod symudiadau anarferol.

**Synhwyrydd symudiadau**

Dyfeisiau fel camerâu neu badiau pwysau sy'n monitro symudiadau i ganfod ymddygiad anarferol.

**System larwm galwadau**

Dyfais sy’n cael ei defnyddio i hysbysu gofalwyr pryd mae angen cymorth. Er enghraifft, os oes cwymp wedi digwydd yn y cartref.

**System TG**

Casgliad o offer, rhaglenni ac adnoddau sy'n cefnogi gweithrediadau sefydliad.

**Systemau adloniant (rhyngweithiol)**

Technoleg sy’n ymgysylltu ac yn diddanu, fel consolau gemau neu sgriniau cyffwrdd.

## T

**Teleiechyd**

Technoleg sy’n monitro iechyd o bell, fel dyfeisiau sy’n monitro pwysedd gwaed neu lefelau ocsigen.

**Teleofal**

Technoleg sy’n cefnogi byw’n annibynnol trwy ddyfeisiau fel synwyryddion cwymp a larymau brys.

**Technoleg therapiwtig**

Offer neu gyfarpar sy’n helpu pobl yn emosiynol, fel dyfeisiau therapi rhyngweithiol neu anifeiliaid anwes robotig.

**Tor diogelwch data**

Digwyddiad lle mae gwybodaeth breifat yn cael ei datgelu i unigolion sydd heb ganiatâd i'w weld.

**Trawsnewid digidol**

Newid yn y ffordd mae sefydliad yn gweithio ac yn meddwl, gan ganolbwyntio ar ddod o hyd i atebion digidol i broblemau ac ar wella effeithlonrwydd.

## U

**Unigolyn Cyfrifol**

Person sydd â dyletswyddau a chyfrifoldebau dros oruchwylio darparu gwasanaethau a sicrhau cydymffurfiaeth â rheoliadau.